



15 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Gwrando ar gerddoriaeth ac ymateb iddi; Teimlo a symud mewn rhythm

Offerynnau?

Na

Hygyrchedd

Bydd y cynllun gwrs hwn yn addas i bob disgybl. Serch hynny, efallai bydd angen i chi addasu'r gweithgareddau i ystyried disgyblion sydd â mân anawsterau dysgu ac anawsterau dysgu penodol.



1. Rhowch eich dwylo yn yr awyr!

Dywedwch wrth y plant am fod yn greadigol ac mae croeso i chi addasu'r syniadau!

Sefwch mewn cylch, neu mewn gofod lle gall pawb weld yr athro yn glir.

Gwrandewch ar y gân *Hands in the Air* a gofyn i'r plant wyllo'r athro'n ofalus a cheisio copio'r hyn mae'n ei wneud. Gallwch ddefnyddio adnodd rhyngweithiol *Bring the Noise: Play It!* ar y wefan i chwarae'r gân.

1. Cyflwyniad

Cerddwch yn eich unfan a siglo eich breichiau i'r curiad cyson gan annog y plant i ymuno â'r alaw chwibanu naill ai drwy ganu la la/hymian neu chwibanu (os gallan nhw!).

2. "Put your hands in the air, like you don't care"

Chwifwch y ddwy law yn uchel yn yr awyr, gan eu symud nhw yn ôl y curiad cyson.

3. Egwyl – yr un fath â'r Cyflwyniad

Cerddwch yn eich unfan a siglo eich breichiau i'r curiad cyson gan annog y plant i ymuno â'r alaw chwibanu naill ai drwy ganu la la/hymian neu chwibanu.

4. Shake your body to the left, feel the best; now shake your body to the right and you'll feel alright

Siglwch eich corff gyda churiad y gerddoriaeth – cyfle da i ymarfer chwith a dde!

(DS Cofiwch, mae'n dibynnu lle mae'r plant yn sefyll mewn perthynas â'r hyn rydych chi'n ei wneud o ran deall chwith a dde yn gywir!)



5. Egwyl – yr un fath â'r Cyflwyniad

Cerddwch yn eich unfan a siglo eich breichiau i'r curiad cyson gan annog y plant i ymuno â'r alaw chwibanu naill ai drwy ganu la la/hymian neu chwibanu.

6. Clap your hands, clap your hands

Plant yn clapio eu dwylo a stopio pan fydd yr egwyl olaf yn dechrau.

7. Yr Egwyl Olaf – yr un fath â'r Cyflwyniad

Cerddwch yn eich unfan a siglo eich breichiau i'r curiad cyson gan annog y plant i ymuno â'r alaw chwibanu naill ai drwy ganu la la/hymian neu chwibanu.

Byddai modd adrodd y geiriau a'r gweithredoedd yn hytrach na'u canu os ydy'r plant eisiau ymuno â'r geiriau a gwneud y symudiadau ar yr un pryd.



Ar ôl dysgu'r
gweithgaredd yma,
gallwch ei
ychwanegu at restr
eich dosbarth o'u hoff
ganeuon â symudiadau



15-20 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Gwranddo ac
ymateb;
Odl a rhythm

Offerynnau?

Na

Hygyrchedd

Mae'n addas i blant
sydd â namau
echddygol neu
wybyddol, neu nam
ar y golwg neu'r clyw,
gyda mân addasiadau.

2. Ysgrifennu Penillion Newydd

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod y gân a rhythm y geiriau cyn dechrau'r gweithgaredd gyda'r plant. Gallwch ddefnyddio adnodd rhyngweithiol *Bring the Noise: Play It!* ar y wefan i chwarae'r gân.

- Ewch dros y gân eto ac ymuno â symudiadau'r gân wreiddiol (Gweithgaredd 1).
- Dywedwch wrth y plant eich bod yn mynd i feddwl am eiriau a symudiadau newydd i'r gân. Yn lle canu maen nhw'n mynd i ddefnyddio eu lleisiau siantio.
- Ewch ati i ymarfer y siantau a'r symudiadau newydd, gan atgyfnerthu'r geiriau sy'n odli a gwneud yn siŵr bod y plant yn cael 'teimlad' y siantio rhythmig.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau posibl, ond byddwch yn greadigol a chreu eich fersiynau eich hunain gyda'r plant.

**Dwylo yn yr awyr ac ymestyn i'r nen;
Dwylo yn yr awyr a nodio'ch pen.
Stampio'ch traed ar y llawr a throelli'n slic;
Stampio'ch traed ar y llawr heb wneud smic.
Neidio i'r awyr yn dal fel cawr;
Neidio i'r awyr a dweud hwyl fawr.**

Pan fydd y plant yn hyderus, perfformiwch eich siant/cân newydd gan ddefnyddio'r trac cefndirol.

1. Cyflwyniad

Cerddwch yn eich unfan gan ymuno â'r alaw chwibanu naill ai drwy hymian, canu la la neu chwibanu.

2. Siantiwch (yn hytrach na chanu) y pennill canlynol

Put your hands in the air and tap your toes; Put your hands in the air now tap your nose.

3. Egwyl

Tarwch eich trwyn i'r curiad, gan ymuno â chanu la la/hymian yr alaw.



4. Siantiwch y pennill canlynol

Stamp your feet on the ground then turn around; Stamp your feet on the ground don't make a sound.

5. Egwyl

Sefwch ar flaenau bysedd eich traed i'r curiad, gan ymuno â chanu la la/hymian yr alaw.

6. Siantiwch y pennill canlynol

Jump up tall to the sky and try to fly; jump up tall to the sky and wave goodbye.

7. Egwyl

Chwifwch i'r curiad, gan ymuno â chanu la la/hymian yr alaw.

Ewch ati i greu 'penillion' eraill gyda'r plant a meddwl am eich symudiadau eich hunain.



20 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Galw ac ateb;
Rhythm a churiad;
Gwrando gweithredol

Offerynnau?

Na, mae modd
defnyddio offerynnau
taro

Hygyrchedd

Mae'n addas i blant
sydd â namau
echddygol neu
wybyddol, neu nam ar y
golwg neu'r clyw, gyda
mân addasiadau.



Gallwch wyllo fideo o'r
gweithgaredd hwn yn yr
adran Teacher Techniques
- Rhythm wedi'i Wahardd.

3. Rhythmau a Galw ac Ateb

Canwch y gân *Hands in the Air*. Clapiwch a dweud rhythm
Hands in the Air gan ddilyn y patrwm isod.

Hands	In the	Air	(Saib)
X	XX	X	

Dywedwch wrth y plant pan fyddan nhw'n clywed y patrwm
cerddorol hwn ei bod yn rhaid iddyn nhw chwifio eu dwylo yn
yr awyr a bod yn dawel.

Chwaraewch galw ac ateb gan ddefnyddio patrymau rhythm
gwahanol. Meddyliwch am rai eich hun, ond dyma ambell
enghraifft:

GALW (Athro yn clapio)				ATEB (Plant yn clapio)			
1	2	3	4	1	2	3	4
X	X	X	X	X	X	X	X
XX	X	XX	X	XX	X	XX	X
X	XX	XX	X	X	XX	XX	X
X		X		X		X	

Pan fyddan nhw'n clywed y rhythm *Hands in the Air* rhaid
cofio peidio â chlapio yn ôl ond chwifio eu dwylo yn yr awyr.

Gallwch newid y galw a'r ateb drwy wneud y canlynol:

- Defnyddio'r corff fel offerynnau taro gwahanol e.e. taro pengliniau, stompio traed, drymio bysedd.
- Defnyddio offerynnau taro'r ystafell.



4. Cyngor AAAA

Gweithgaredd 2: Ysgrifennu Penillion Newydd

- Cyn defnyddio'r coreograffi enghreifftiol, efallai bydd angen helpu rhai plant i ddeall beth mae angen ei wneud. Defnyddiwch ddrwm i guro rhythm syml ac ychwanegwch frawddegau syml, fel 'amser cinio', 'amser chwarae'. Gofynnwch i'r plant guro gan ddilyn eich curiad chi.

Gweithgaredd 3: Galw ac Ateb

- Efallai bydd angen rhai enghreifftiau lleisiol ychwanegol ar rai disgyblion i'w helpu i ddeall yr ymarfer cyn dilyn y rhythmau clapio. Defnyddiwch frawddeg syml iddyn nhw ei dilyn, fel yr enghreifftiau sydd yng Ngweithgareddau 1 neu 2.